

# Cynlluniau Byw'n Annibynnol



**ateb** *better living solutions*

Rydym yn darparu ystod o gynlluniau byw'n annibynnol o safon a gwasanaethau cefnogaeth, wedi'u mesuro yn ôl anghenion ein cleientiaid.

## BANNAU'R FESEN

### Ffordd y Bryn Gwyrdd, Dinbych y Pysgod, SA70 7AN

Lleolir Bannau'r Fesen yn Ffordd y Bryn Gwyrdd yn nhref boblogaidd ar lân y môr Dinbych y Pysgod. Mae'r cynllun yn darparu llety lloches ar gyfer pobl 55 mlwydd oed neu'n hŷn mewn cyfadeil o 16 fflat hunangynhwysol. Mae Bannau'r Fesen o fewn pellter cerdded o'r siopau a mwynderau yng nghanol y dref.

## LLYS Y

### Y Comon, Sir Benfro, SA71 4NZ

Gyda golwg dros Gastell Penfro a harddwch naturiol Llyn Rhygyfarch, lleolir Llys y Tyddyn yn Y Comon, Penfro. Mae'r cynllun yn darparu llety lloches ar gyfer pobl 60 mlwydd oed neu'n hŷn mewn cyfadeil o 37 fflat hunangynhwysol, yn cynnig ystod o weithgareddau cymdeithasol a digwyddiadau. Mae'r cynllun yn agos a siopau a mwynderau ynghanol tref Penfro.



Mae'n lân, modern a cyfeillgar Mae pob tro rywun o gwmpas am gwmni os ydych chi eisiau neu ei angen.



Tenant Llys De Clare

## LLYS DE CLARE

### Rhodfa Afallennau, Pont Myrddin, Hwlfordd, SA61 1XN

Mae Llys De Clare yn gynllun gofal ychwanegol wedi'i leoli'n hwylus ym Mhont Myrddin, Hwlfordd gyda chyfleusterau modern i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid hŷn. Mae gan y cynllun fynediad gwastad drwyddo draw a darparir ystod o wasanaethau yn cynnwys cinio 2 saig bob dydd, cyfleusterau trin gwallt, swît gyfrifiaduron a gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer pobl 55 mlwydd oed neu'n hŷn mewn cyfadeil o 40 fflat hunangynhwysol adeiladwyr i'r pwrpas.



## LLYS HANOVER

### Heol Aberdaugleddau, Hwlfordd, SA61 1PP

Lleolir Llys Hanover yn hwylus ger Tesco Extra ar Heol Aberdaugleddau, Hwlfordd yn rhoi llety lloches ar gyfer pobl 60 mlwydd oed neu hŷn mewn cyfodeil o 30 fflat hunangynhwysol. Yn sefyll ar lwybr y bws, gellid cael mynediad hawdd at siopau a mwynderau lleol ac mae'r cynllun yn darparu cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol a gweithgareddau.

## LLYS HANOVER

### Stryd Robert, Aberdaugleddau, SA73 2DH

Saif Llys Hanover yn Stryd Robert yng nghanol dref Aberdaugleddau'n agos at Theatr Torch, siopau a mwynderau. Mae'r cynllun yn darparu llety lloches ar gyfer pobl 60 mlwydd oed neu'n hŷn mewn cyfodeil o 29 fflat hunangynhwysol. Cyniga'r cynllun ystod o weithgareddau cymdeithasol a digwyddiadau a gerddi libart atyniadol.

## LLYS HANOVER


### Teras Picton, Dinbych y Pysgod, SA70 7DR

Saif Llys Hanover ar Deras Picton yn nhref hanesyddol ar lân y môr Dinbych y Pysgod. O fewn gallu cerdded o lân y môr, siopau a mwynderau, mae'r cynllun yn darparu mynediad gwastad at lety lloches ar gyfer pobl 60 mlwydd oed neu hŷn mewn cyfodeil adeiladwyd i'r pwrpas o 34 fflat hunangynhwysol.

## LLYS KENSINGTON

### Ffordd Gwron, Steynton, Aberdaugleddau, SA73 1GB

Mae Llys Kensington gynllun gofal ychwanegol wedi'i leoli yn Steynton, Aberdaugleddau. Adeilad trawiadol wedi'i leoli mewn tiroedd ysblennydd, mae'r cynllun yn darparu fflatiau eang gyda mynediad gwastad ar gyfer pobl 55 mlwydd oed a hyn. Cyniga'r cynllun fwyty, gweithgareddau rheolaidd, trinwr gwallt a swît gyfrifiadurol mewn cyfodeil o 48 fflat hunangynhwysol.





## LLYS EGLWYS FAIR

**Stryd Albert, Hwlfordd,  
SA61 1TQ**

Lleolir Llys Eglwys Fair yn Stryd Albert, Hwlfordd o fewn pellter cerdded o siopau, swyddfa'r post a mwynderau lleol. Mae'r cynllun yn darparu llety lloches ar gyfer pobl 55 mlwydd oed neu'n hŷn mewn cyfadeil o 30 fflat hunangynhwysol.

## LLYS PATERCHURCH

**Stryd y Lan, Doc Penfro,  
SA72 6JZ**

Mae Llys Paterchurch yn sefyll yn Stryd y Lan, Doc Penfro. Lleolir yn ganolog ynghanol y dref, mae'r cynllun yn agos at archfarchnadoedd, llyfrgell a mwynderau lleol. Mae'r cynllun yn darparu llety lloches ar gyfer pobl 55 mlwydd oed neu'n hŷn mewn cyfadeil o 26 fflat hunangynhwysol.

## LLYS WILLIAMS

**Bloomfield, Narberth, Penfro,  
SA67 7DW**

Mae Llys Williams yn sefyll wrth ymyl Canolfan Bloomfield, yn nhref boblogaidd Narberth. Mae'r cynllun yn darparu llety lloches mewn tiroedd atyniadol ar gyfer pobl 60 mlwydd oed neu'n hŷn mewn cyfadeil o 33 fflat hunangynhwysol adeiladwyd i'r pwrpas. Mae'r cynllun yn agos i siopaua mwynderau ynghanol y dref ac mae'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau.

I gofrestru'ch diddordeb mewn unrhyw o'n cynlluniau byw ni, ymwelwch â [atebgroup.co.uk](http://atebgroup.co.uk) neu roi galwad ar **01437 763688/774703** neu **0800 854568**

*better living solutions*

**ateb**